


Dolgellau:

Deall Nodweddion Trefol



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cadw
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ

Ffôn: 01443 33 6000
Ffacs: 01443 33 6001

Cyhoeddwyd gyntaf gan Cadw 2009.
ISBN 978-1-85760-269-2
Hawlfraint y Goron 2009.

Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda i Gymru.

Dolgellau:

Deall Nodweddion
Trefol

Cydnabyddiaeth

Wrth gynnal yr astudiaeth hon, rhoddodd Cadw gymorth grant i Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd i gynnal gwaith casglu data ac asesu gwybodaeth archeolegol.

Clawr blaen: Golygfa o'r awyr o Ddolgellau
Hawlfraint y Goron: CBHC

Cynnwys

Cyflwyniad	7	Ardaloedd â Nodweddion	26
Nodau'r Astudiaeth	7	1. Y Canol	26
		Datblygiad Hanesyddol a Thirwedd	26
		Nodweddion Adeiladu	26
Datblygiad Hanesyddol	9	2. Ardal y Lawnt	29
Hanes Cynnar	9	Datblygiad Hanesyddol a Thirwedd	29
Diwydiant a Masnach	11	Nodweddion Adeiladu	29
Tirfeddiannaeth	14	3. Yr Ardal Ddeheuol	30
Adeiladau a Chymdeithas	14	Datblygiad Hanesyddol a Thirwedd	30
Dolgellau: Cyrchfan Wyliau Fynyddig	15	Nodweddion Adeiladu	31
Diwedd y Bedwaredd Ganrif ar		4. Ardal Tanws	32
Bymtheg; Ehangu ac Adnewyddu	15	Datblygiad Hanesyddol a Thirwedd	32
Y Cyfnod Modern	16	Nodweddion Adeiladu	32
		5. Yr Ardal Orllewinol	33
Tirwedd Hanesyddol	17	Datblygiad Hanesyddol a Thirwedd	33
		Nodweddion Adeiladu	33
Nodweddion Adeiladu	20	6. Ardal Pont yr Arran	34
Deunyddiau a Gorffeniadau Waliau	20	Datblygiad Hanesyddol a Thirwedd	34
Toeon	23	Nodweddion Adeiladu	34
Manylion Pensaernïol	24	7. Y Cyrion Allanol Gorllewinol	34
Mathau o Adeiladau	24	8. I'r Gogledd o Ardal Wnion	35
Strydoedd: Ddodrefn a Gorffeniadau	25	Datblygiad Hanesyddol a Thirwedd	35
		Nodweddion Adeiladu	35
		Datganiad Pwysigrwydd	37
		Ffynonellau	38
		Troednodiadau	39

Rhestr o Fapiau tudalennau 40–55

1. Ardal yr Astudiaeth yn Dangos Ffiniau'r Ardal Gadwraeth a Dosbarthiad Adeiladau Rhestredig
2. Unedau Datblygu: Strwythur Lleiniau Awgrymedig a Thresmasiadau
3. Dolgellau yn 1760
4. Dolgellau yn 1794
5. Dolgellau yn 1820
6. Dolgellau a'r Cylch yn 1842: Map y Degwm
7. Dolgellau yn 1881: Argraffiad Cyntaf yr Arolwg Ordnans
8. Pob Ardal â Nodweddion
9. Y Canol (1)
10. Ardal y Lawnt (2)
11. Yr Ardal Ddeheuol (3)
12. Ardal Tanws (4)
13. Yr Ardal Orllewinol (5)
14. Ardal Pont yr Arran (6)
15. Y Cyrion Allanol Gorllewinol (7)
16. I'r Gogledd o Afon Wnion (8)

Cyflwyniad

Nodau'r Astudiaeth

Nod nodweddu trefol yw disgrifio ac egluro cymeriad hanesyddol trefi i roi ffocws i natur unigryw leol a gwasanaethu fel ffordd o reoli'r amgylchedd hanesyddol mewn modd cynaliadwy. Mae'n ceisio llywio a chefnogi rhaglenni cadwraeth ac adfywio cadarnhaol, helpu i wella ansawdd cyngor cynllunio, a chyfrannu at strategaethau dehongli ac addysgu lleol.


Mae nodweddu trefol yn diffinio cymeriad hanesyddol unigryw trefi unigol, ac yn nodi'r amrywiaeth o nodweddion ynddynt, gan gydnabod bod y cymeriad hwn yn hanfodol i natur leol unigryw a brogarwch, ac mae'n ased o ran gwaith adfywio. Mae'n ystyried sut y caiff hanes tref ei fynegi yn ei chynllun a'i thirwedd, mewn ardaloedd o botensial archeolegol, ac yn ei chymeriad archeolegol. Nid archwiliad o nodweddion yn

unig yw'r arolwg hwn, ond ail-greu'r themâu a'r prosesau sydd wedi llunio'r dref.

Cyd-destun uniongyrchol yr astudiaeth hon yw fel cyfraniad gan Cadw tuag at gais Cam Dau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer Menter Treftadaeth Treflun yn Nolgellau. Mae'r fenter nid yn unig yn ceisio adfywio'r dref drwy sicrhau cadwraeth ei hadeiladau, ond mae hefyd yn annog mwy o fynediad i dreftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd hanesyddol adeiledig a gwell dealltwriaeth ohonynt. Er bod y Fenter Treftadaeth Treflun yn canolbwyntio ar Ardal Gadwraeth Dolgellau, mae'r astudiaeth nodweddu hon yn archwilio cymeriad hanesyddol holl ardal adeiledig y dref, gan osod yr ardal gadwraeth mewn cyd-destun ehangach, a darparu llinell sylfaen ar gyfer cynllunio strategol yn ogystal â rheoli lleol.



Stryd Fawr yw'r ardal agored fwyaf sydd yn un o nodweddion amlycaf y dref. Hwn yw safle'r farchnad wreiddiol.



Datblygiad Hanesyddol

Hanes cynnar

*'The town developed almost by stealth, its urban characteristics unrecognised by royal administrators for several centuries.'*¹

Sefydlwyd Dolgellau fel anheddiad Cymreig brodorol, taecodref cwmwd Tal-y-bont. Canol y cwmwd oedd Rhyd-eryw yn Llanegryn. Daw'r cyfeiriad cynharaf at y dref o arolwg yn 1284 lle y rhestrwyd bod Dolgellau wedi ei dal gan denantiaid caeth. Gall y taecodref hon awgrymu bodolaeth canolfan weinyddol fach, ac er bod yr anheddiad yn fach — gyda dim ond tri o drethdalwyr wedi'u cofnodi yn 1292–93 — yn ystod y ganrif ddilynol daeth yn faerdref y cwmwd lleol neu lys y cantref. Mae'n debyg fod presenoldeb eglwys (y ceir y cyfeiriad cyntaf ati yn y *Norwich Taxatio* yn 1253) hefyd yn gweithredu fel canolbwynt. Roedd Dolgellau mewn lleoliad ffafriol wrth fan croesi afon, ar ffin economaidd rhwng tir pori defaid a gwartheg yr ucheldiroedd a thiroedd â'r ffrwythlon yr iseldiroedd. Gallai'r lleoliad hwn fod wedi meithrin ei ddatblygiad fel cyfnewidfa, a cheir cyfeiriadau at farchnad yma erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar ddeg. Roedd y farchnad yn rheoli masnach yn yr ardal erbyn canol y bymthegfed ganrif. Roedd y fasnach wllân eisoes yn ffynnu erbyn diwedd yr unfed ganrif ar bymtheg (ac efallai'n gynharach). Ochr yn ochr â'r swyddogaeth economaidd hon, roedd y dref yn parhau i ddatblygu fel canolfan weinyddol dros y blynyddoedd nesaf — cynhaliwyd llysoedd y cantref yma, ac (yn ddiweddarach) llysoedd Chwarter a Sesiynau Mawr, wrth i Ddolgellau gystadlu â Harlech fel tref y sir. Er hynny, fe'i disgrifiwyd fel pentref o hyd yn y 1530au, er mai 'the best village in this commote' ydoedd.²

Mae bron yn sicr bod cynllun y dref yn cynnwys elfennau o drefn cynnar defnydd tir, ond mae'n annhebyg fod yr adeiladau cynharaf sydd wedi goroesi yn deillio o gyfnod cynharach na'r ail ganrif ar bymtheg. Yr unig adeilad canoloesol a ddogfennwyd yn y dref oedd Cwrt Plas yn Dre, a adeiladwyd yn wreiddiol fel tŷ neuadd â ffrâm bren (sy'n dyddio o'r bymthegfed ganrif o bosibl). Hwn oedd cartref Lewis Owen, a brydlesodd

fuddiannau'r Goron yn y dref yn 1552 am swm blynyddol o 38 swllt a 4 ceiniog. Ar ôl ei farwolaeth (fe'i llofruddiwyd gan Wylliaid Cochion Mawddwy yn 1555) etifeddodd ei fab y brydles ar gyfer 'the market town of Dolgelley and divers parcels of waste grounds and commons in and adjoining the town. One weekly market and three annual fairs have been kept time out of mind for the buying and selling of cattle and other commodities. The king's subjects have had their stalls and standings on the waste grounds, paying the Crown farmer divers sums of money for each site'.³ Cyhuddwyd diffinyddion mewn hawliadau cynhennus ynglŷn â meddiant o 'pretence of title to the wastes. Building of houses and cottages on the commons in the town and enclosing parcels of land whereon stalls and standings used to be erected. Straightening the streets of the town and claiming the land to be their own freehold'.⁴ Mae'n debygol mai'r tresmasu hyn ar dir comin a thir diffaith o fewn y dref sy'n esbonio ei natur unigryw, lle mae ynysioedd bach o adeiladau yn meddiannu mannau agored dolennog rhwng lleiniau o dir ar wahân.

Adeilad ffrâm bren yn sicr oedd Cwrt Plas yn Dre. Efallai bod olion o ffrâm bren hefyd o fewn The Old Courthouse ac o fewn Plas Newydd, lle mae'n debyg fod y paneli a rendrwyd o bobtu'r ffenestri bwa â ffrâm bren. Fodd bynnag, eithriadau pwysig yw'r rhain, gan fod yr adeiladau cynharaf sy'n goroesi

Gyferbyn: Cwrt Plas yn Dre, tŷ neuadd â ffrâm bren a'r adeilad domestig hynaf a ddogfennwyd yn y dref, a ddymchwelwyd tua 1885 (drwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

Mae'n bosibl fod gan The Old Courthouse ffrâm bren yn wreiddiol.



Dde: Plas Newydd — gall y ffryntiad o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg guddio olion ffasâd ffrâm bren o'r ail ganrif ar bymtheg.



Isod: Bythynnod brodorol o fath sy'n nodweddiadol iawn o'r dref.



oll wedi eu hadeiladu â cherrig. Dymchwelwyd Cwrt Plas yn Dre maes o law ac fe'i hailgodwyd yn rhannol yn y Drenewydd tua 1885. Nid oes unrhyw adeiladau canoloesol eraill wedi goroesi, er fod elfennau o adeiladau cynnar o bosibl wedi'u hymgorffori yn y strwythurau presennol, a gallai cyfleoedd ar gyfer ymchwiliadau manylach fod yn werthfawr i ddeall datblygiad cynnar y dref. Mae gan fath nodweddiadol o adeiladau cynnar o fewn y dref gysylltiadau ag adeiladau cynhenid gwledig yr ardal — sy'n cynnwys adeiladau un llawr a hanner, gyda dormerau talcennog a simneiau talcen (ac weithiau simneiau ochrol). Ni ddyddiwyd unrhyw un o'r adeiladau hyn yn benodol, ond roedd rhes o dai a dymchwelwyd ar Lôn Bopty yn elusendai yr Esgob Rowland, y credir eu bod yn dyddio o 1616. Ceir sawl tŷ o'r math hwn — Bythynnod Bro Awel a Glanarran — ac mae mwy wedi'u dogfennu mewn llyuniau a ffotograffau cynnar. Fe'u dosberthir drwy'r anheddiad, o'r ardal graidd o amgylch yr eglwys ac i fyny'r llethrau i'r gorllewin o afon Aran. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn dai unigol neu'n dai pâr, ond cofnodwyd rhesi hwy (Tai Gwynion, Porth Canol er enghraifft). Awgryma'r patrwm dosbarthu a threfniant yr adeiladau — yn barau a rhesi — rywfaint o ddwysedd datblygu erbyn o leiaf ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg, ac roedd eisoes yn fwy trefol na gwledig.

Ochr yn ochr â'r tai cynhenid bach hyn ceir cyfres o blastai trefol mwy o faint sy'n dyddio o'r ail ganrif ar bymtheg i'r ddeunawfed ganrif, sy'n arwydd o bwysigrwydd y dref yn y cyfnod hwn. Mae'r rhain yn cynnwys Tan y Fynwent a'r Meirionydd (sydd â simneiau ochrol), Plas Gwyn, ac, ychydig yn ddiweddarach, y ddau adeilad mawr sy'n amlwg o statws uchel sy'n ffurfio craidd The Golden Lion. Mae'r adeiladau eraill y credir eu bod yn tarddu o'r cyfnod hwn yn cynnwys Plas Coch a The Unicorn. Mae'r ffaith i'r eglwys gael ei hailadeiladu yn llwyr yn 1718 (mae'n debyg iddi gael ei hailadeiladu o amgylch yr hen eglwys) yn arwydd da arall o ffyniant a statws erbyn dechrau'r ddeunawfed ganrif.

Roedd Dolgellau yn dref bwysig erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif. Dengys mapiau ystadau o 1760 a 1794 (Fychaniaid Nannau a Hengwrt) ddatblygiadau dwys yng nghanol y dref, yn enwedig i'r gorllewin o linell Wtra'r Felin, a oedd ond yn ddyfrffos ar yr adeg honno, ac o amgylch yr hyn a ddatblygodd yn Stryd Fawr



a Llys Owain. Roedd yr ardaloedd i'r gorllewin a'r de o Stryd Fawr — y Lawnt, Heol Feurig a Heol y Pandy — er nad oeddent wedi'u datblygu i'r un graddau, hefyd yn amlwg o fewn terfynau'r dref. Mae nifer o dai â statws uchel o'r cyfnod hwn yn addurno'r dref, yn enwedig ar y tir uchel i'r de. Mae'n amlwg o'u cyd-destun iddynt gael eu hadeiladu fel plastai trefol — ochr yn ochr â bythynnod llawer llai, yn hytrach nag ar wahân ar eu tiroedd eu hunain.

Erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, nid oedd amheuaeth am statws y dref: 'Though a small market town, [it] is in many respects the principal in the county, from the summer sessions being held here, and being a manufacturing place, and a market for the sale of various articles in the clothing line.'⁵ Roedd cyfres o adeiladau dinesig newydd yn cyfleu'r statws hwn: adeiladwyd carchardy yn 1811 (meddiannir y safle bellach gan Rifau 1–4 Bodlondeb) a thŷ llys a neuadd y dref yn 1825. Disodlodd yr olaf neuadd y dref gynharach a ddisgrifiwyd gan Evans yn 1812 fel 'scarcely distinguishable from the other houses'.⁶ Roedd yr adeilad newydd, gan bensaer amlwg, yn adeilad arbennig, a defnyddiwyd hen neuadd y dref ar gyfer gwasanaethau eglwysig Saesneg, ysgol a theatr. Adeiladwyd tloty i'r dwyrain o ganol y dref tua 1850. Codwyd gorsaf newydd yr heddlu, a adeiladwyd hefyd tua 1850, ar y Lawnt i'r gorllewin, arwydd, efallai, o bwysigrwydd cynyddol y rhan hon o'r dref.

*Chwith uchod:
Yr eglwys, a
ailadeiladwyd
yn 1718.*

*Uchod: Tan y Fynwent,
plasty trefol mawr
sy'n dyddio o ddiwedd
yr ail ganrif ar bymtheg.*

Star House: gellir gweld dau lawr o siopau gwehyddu uwchben yr amedd.



Dde isod: Mae'r drws yn yr atig yn Tŷ Meirion yn awgrymu iddo gael ei ddefnyddio o fewn y diwydiant tecstilau.

Isod: Gallai'r ffenestri hir o dan y bargodion fod wedi goleuo llofft gwehyddu yn wreiddiol.



Diwydiant a Masnach

*'The mills, where nothing but hand looms are at work, will repay a visit from the curious in such matters.'*⁷

Drwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ceir tystiolaeth dda ar gyfer proses barhaus o ddatblygiad a thwf trefol, ac adeiladwyd y rhan fwyaf o adeiladau hanesyddol y dref ar ôl tua 1820. Ehangodd y dref i'r de a'r gorllewin, ond roedd llawer o'r gwaith adeiladu yn canolbwyntio ar ganol y dref, lle cynhaliwyd gwaith ailadeiladu helaeth. Yn ddiaw ysgogwyd y twf hwn gan ddiwydiant, ac yn enwedig pwysigrwydd cynyddol y diwydiant tecstilau i ffyniant y dref. Cyfeiriodd Bingley at 'very considerable manufactories of flannel, which, from the number of hands necessarily employed, have rendered the place very populous'.⁸ Yn ddiaw dylanwadwyd ar ddatblygiad y dref gan y newid o waith allanol i waith cynhyrchu mewn ffatrioedd a newidiadau marchnata. 'Dolgelley and its vicinity have long been noted for the manufacture of a sort of coarse woollen cloth, or flannel, called 'webs', or 'Welsh plains', in which about one thousand four hundred persons are at present employed... in the last century they were chiefly sold directly from



the loom; but fulling mills have since been erected upon the banks of the streams in the neighbourhood, and bleaching-grounds formed along the sides of the hills'.⁹ 'The principal market for goods is Shrewsbury, but so great a portion has of late been bought on the spot that the inhabitants have had little occasion to send to a market at such a distance'.¹⁰

Ceir toreth o dystiolaeth sy'n goroesi yn y dref i olrhain pwysigrwydd cynyddol y diwydiant gwllân, a newidiadau yn ei drefniant o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen. Gellir olrhain y newid o ddiwydiant domestig i gynhyrchu mewn ffatrioedd (er ei fod yn dibynnu ar waith llaw o hyd) yn glir yn y stoc adeiladau. Ceir tai â lloffydd gwehyddu — yn enwedig Star House ar Heol Feurig, a oedd â dau lawr o ystafelloedd gwehyddu, a Rhif 4 y Lawnt, gyda'i lawr uchaf uchel nodweddiadol — ond hefyd ffatrioedd cynnar a adeiladwyd at y diben. Mae'r adeilad y tu ôl i Gapel Salem ar Ffordd Cader Idris yn edrych fel siop wehyddu, gyda'i resi o ffenestri ar y llawr uchaf (efallai iddo gael ei ddefnyddio fel ysgol yn ddiweddarach). Roedd Rhifau 1–3 Pont yr Arran yn ffatri wlân fach. Roedd Tŷ Forden ar Wtra'r Felin hefyd yn cynnwys llofft wehyddu erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a gallai Tŷ Meirion ar Stryd Fawr, sydd â theclyn codi i un o'r lloriau uchaf, fod wedi cynnwys siop wehyddu neu warws hefyd. Adeiladwyd Melin y Cambrian, Pant y Pistyll, at y diben fel ffatri a warws. Roedd gan Blas yn Dre declyn codi i'w llawr uchaf hefyd, sy'n awgrymu i'r atig gael ei defnyddio fel warws. Roedd ffatri wehyddu arall mae'n siŵr ar ben deheuol Ffos y Felin. Lleolwyd pandai, yr oedd angen pŵer dŵr amrynt, y tu allan i ganol y dref yng nglyn Aran. Gellir gweld olion darniog sawl ffatri wlân a chored drawiadol yn agos i gymer afon Aran a Nant y Ceunant o hyd. Ceir olion cored arall y tu ôl i'r Eglwys Babyddol, y gellir ei chroesi ar lwybr troed cyhoeddus. Mae manau croesi eraill yr afon — y cerrig sarn islaw Hen Felin, a'r bompren islaw Heol y Pandy hefyd yn gysylltiedig â safleoedd hen felinau.

Nid yw'r newid i fanwerthu uniongyrchol a nodwyd gan arsylwyr erbyn dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn weladwy yn y stoc adeiladau tan llawer yn ddiweddarach, ond mae Central Buildings, a adeiladwyd yn 1870, yn enghraifft dda o farchnadfa fawr sy'n cyfuno warws a siop.

Datblygodd diwydiannau eraill i fanteisio ar



Uchod: Ffatri yn Ffos y Felin.

Chwith: Adlewyrchir pwysigrwydd cynyddol masnach fanwerthu yn y siopau mawr a adeiladwyd at y diben megis Adeiladau Glyndŵr.

Isod: Melin y Cambrian, Pant y Pistyll.





economi amaethyddol yr ardal a'r cyflenwad digonol o ddŵr o afon Aran. 'Much business is done in the dressing of native lamb-skins and foreign lamb and kid skins, upwards of one hundred thousand of the former being sent annually to Worcester and Chester; and a few to London: tanning is also carried on to a considerable extent'.¹¹ Roedd un tanerdy ar y tir yn union i'r gogledd-orllewin o Bont yr Arran. Mae safle tanerdy arall bellach yn ystad fach o dai oddi ar Heol y Pandy. Roedd hefyd nifer o 'groen dai' yn yr ardal lle saif yr Eglwys Babyddol bellach — yr ardal a elwid yn 'Skinners Square' ar un adeg.

Fel tref farchnad â diwydiant lleol cryf, roedd Dolgellau hefyd yn ganolfan fanwerthu leol neu ranbarthol bwysig. Mae'r adeiladau sydd wedi goroesi yn tystio i hyn gryn dipyn a gellir olrhain datblygiad teipolegol clir o dai syml â siopau llawr daear (Rhif 1 Ffordd y Marian) ac estyniadau siopau i dai (Star House, Heol Feurig), i bensaerniaeth fasnachol gyflawn. Mae'r Senedd-dy, yr hen siop nwyddau metel, yn enghraifft ardderchog o hyn: fe'i hadeiladwyd fel rhan o waith i ailddatblygu hen ran o'r dref tua 1885–86. Ymhlith yr enghreifftiau eraill o bensaerniaeth fasnachol mae adeiladau Glyndŵr ac, ar raddfa lai, Adeilad Waterloo.



Uchaf: Mae Eldon Row yn enghraifft dda o ddatblygiad ffurfiol cynlluniedig gan dirfeddiannur mawr lleol.

Uchod: Brynhyfryd, un o'r filâu cynharaf a ddaeth yn nodwedd ar y dref yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Dde: Bythynmod ar Ffordd Cader Idris.



Tirfeddiannaeth

Dylanwad sylweddol arall ar gymeriad y dref yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg oedd tirfeddiannaeth. Roedd nifer o dirfeddianwyr, fel y dengys cymeriad amrywiol yr adeiladau, ond roedd dwy ystad yn bwysig iawn. Roedd Fychaniaid y Nannau a Hengwrt yn rym pwerus. Robert Vaughan oedd yn gyfrifol am ddatblygu Eldon Row. Mae hyn yn enghraifft gynnar o adeiladu trefol ffurfiol, ac yn rhagflaenu gwaith gwella ehangach: 'The streets are irregularly faced and the houses mostly ill-built, but a good line of houses was begun on 4th June 1830 by Sir R.W.Vaughan Bart, and many parts of the town have recently experienced or are now undergoing considerable improvement'.¹² Mae graddau'r gwaith adeiladu rhwng 1830–50 yn y dref yn brawf pendant o hynny.

Vaughan oedd hefyd yn gyfrifol am ailadeiladu The Golden Lion, a ystyriwyd eisoes yn dafarn orau'r dref ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd yn allweddol yn y gwaith o adeiladu'r Courthouse yn 1825 (roedd llun ohono ynnddo), a'r carchar yn 1811. Roedd gan ystad y Llwyn ddaliadau gwasgaredig yn y dref hefyd, ond ymddengys na fu'n ymwneud yn uniongyrchol â'r broses adeiladu. Gall y ffaith mai dim ond gwaith adeiladu cyfyngedig a wnaed i'r gogledd-ddwyrain o'r bont dros afon Wnion cyn yr ugeinfed ganrif fod oherwydd tirfeddiannaeth: roedd cryn dipyn o'r tir hwn hefyd yn rhan o ystad y Llwyn, felly mae'n bosibl yr oedd ganddi fwriadau eraill ar ei gyfer.



Chwith: Heol Feurig — mae cyfodiad plastai trefol mawr a bythynnod bach yn nodweddiadol o'r dref.

Isod: Filâu o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn Bodlondeb.



Adeiladau a Chymdeithas

Os yw graddau'r gwaith adeiladu ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn arwydd da o ffyniant, mae ei amrywiaeth yn datgelu strwythur cymdeithasol cymhleth. Mae hierarchaeth sylweddol o adeiladau yn y dref, o resi o dai bach a bythynnod gweithwyr a phlasdai trefol mwy o faint ar wahân ac mewn terasau (er enghraifft, Tŷ Meurig), i filâu mawr gyda'u gerddi eu hunain, y mae'r cynharaf ohonynt yn cynnwys Fron Arran (1830), Brynhyfryd (1840), a Brynmair (1838). Roedd yr unedau datblygu yn fach ar y cyfan tan ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Prin yw'r terasau sy'n hwy na thri neu bedwar tŷ, sy'n adlewyrchu tirdaliadaeth ddarniog ac argaeledd tameidiog lleiniau ar gyfer adeiladu.

Roedd y filâu ar leiniau mawr ac ar eu pen eu hunain i ryw raddau, ond mewn mannau eraill, mae cymysgu adeiladau o faint a statws gwahanol yn un o'r nodweddion datblygu yn y dref. Saif tai mawr ochr yn ochr â bythynnod bach, a hyd yn oed yn natblygiadau diweddarach y bedwaredd ganrif ar bymtheg i'r dwyrain o'r dref gwelwyd tai o feintiau amrywiol — adeiladwyd tai mawr â ffenestri bae a gerddi blaen yn agos at resi o fythynnod cefn wrth gefn.

Dolgellau: Cyrchfan Wyliau Fynyddig

Mae'r filâu ar wahân nid yn unig yn arwydd o ffyniant

Ileol ond hefyd o boblogrwydd yr ardal fel cyrchfan wyliau hardd. Roedd Dolgellau hefyd yn nodedig fel man cychwyn i ddringo Cadair Idris, a chafwyd disgrifiadau mynych o rinweddau hardd yr ardal gan deithwyr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'n anodd mesur effaith hyn ar gymeriad y dref yn y dyddiau cynnar, er i symiau sylweddol gael eu buddsoddi mae'n amlwg mewn adeiladu gwestai: bu'r gwaith o ailadeiladu The Golden Lion gan Vaughan yn brosiect mawreddog, ac mae maint y llety a gynigiwyd gan The Royal Ship (a oedd hefyd yn eiddo Vaughan, a ailadeiladwyd ar safle adeilad cynharach ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg ac a ehangwyd rai degawdau'n ddiweddarach) yn rhoi arwydd da o werth twristiaeth yn y cyfnod hwn. Roedd gan y ddau gyfleusterau gwasanaethu helaeth — ystablau ac ati. Y trydydd prif westy yn y dref oedd The Angel Hotel (a ddymchwelwyd ac a ddisodlwyd gan yr hyn sydd bellach yn fanc HSBC yn 1923–24); paratowyd cynlluniau uchelgeisiol ar ei gyfer yn 1800, er na chawsant eu gweithredu yn ôl pob tebyg.

Dde: Datblygiad o'r unfed ganrif ar hugain yng nglyn Aran.

Isod: Yr hen dref, gydag ehangiad yr ugeinfed ganrif i'r gogledd.

amongst tourists, anglers etc, and as visitors have increased, so has the number of villas and handsome houses built and specially fitted up for their accommodation, the appearance of the town being much improved thereby'.¹³ Mae enghreifftiau da yn cynnwys Frondirion, 1–3 Bryntirion a 3–5 Bryn Teg,



Tirwedd Hanesyddol

ond ceir nifer eraill o'r cyfnod oddeutu 1870–1900. Cafodd y rheilffordd effaith ffisegol uniongyrchol ar y dref hefyd — bu'n rhaid addasu'r bont dros afon Wnion, a dymchwel y clwstwr o adeiladau a ddatblygodd ar un adeg ar ochr ogleddol y bont — yn cynnwys tafarn fawr iawn yr Hen and Chickens Inn.

Diwedd y Bedwaredd Ganrif ar Bymtheg: Ehangu ac Adnewyddu

Gwelwyd twf mwy cyffredinol yn Nolgellau yn y cyfnod wedi dyfodiad y rheilffordd, gyda gwaith ailadeiladu helaeth, gwaith adeiladu newydd, a gwaith cynllunio trefol pellach. Roedd rhywfaint o'r gwaith hwn yn uchelgeisiol iawn — ffurfiwyd strydoedd newydd yng nghanol y dref: Heol Plas Uchaf, Heol Glyndŵr, Heol Plas yn Dre, Ffos y Felin, a Chae Tanws Bach. Ehangodd y dref hefyd, yn enwedig i'r dwyrain.



Chwith uchod: Saif Tŷ Meirion ar safle ynysig o fewn yr bryn a fu unwaith yn ardal farchnad fawr agored fwy na thebyg.

Uchod: Mae llinell adeiladu grom Pant y Pistyll yn cadw at ffin llain gynharach.

Chwith: Mae patrwm adeiladu llinellol ar Heol y Pandy yn cadw at ffin llain gynharach.



Y Cyfnod Modern

Ceir tair phrif ffurf ar ddatblygiad o'r ugeinfed ganrif (a'r unfed ganrif ar hunain): ehangu'r ardal adeiledig, mewnlenni o fewn yr ardal drefol bresennol, a chlirio. Yn yr ugeinfed ganrif, cyfrannodd rhaglen o adeiladu tai cyngor yn sylweddol at ehangiad y dref. Datblygwyd dwy ardal yn benodol o'r 1920au — i'r gogledd o'r bont ac i'r dwyrain o afon Aran. Parhaodd y gwaith datblygu yn yr ardal olaf ar ôl y rhyfel. Yn ogystal, datblygwyd neu ailddatblygwyd safleoedd bach o fewn glyn Aran yn y dref (Hen



Cyfyngwyd ar yr adeilad cynhenid cynnar hwn gan ffin llain gynnar, fel y dengys y gornel onglog. Fe'i blaendorrwyd yn ddiweddarach pan grëwyd Ffos y Felin ac adeiladwyd Gwesty The Torrent Walk.

Felin, er enghraifft). Yn ogystal, bu rhywfaint o adeiladu hapfasnachol: 'every encouragement is given for building by private enterprise', yn ôl canllaw i'r dref o 1962.¹⁴ Roedd llawer o'r adeiladu hapfasnachol hwn yn canolbwyntio ar yr ardal i'r gogledd o'r afon. Yn y 1950au-60au, bu rhaglen glirio hefyd, a arweiniodd at golli nifer sylweddol o adeiladau llai cynhenid yn enwedig o fewn y dref (e.e. Tai Gwynion, Porth Canol, tafarn The Castle a'r hen elusendai ac ati ar Lôn Bobty).

Mae'r dref yn parhau i ehangu, gan dresmasu'n raddol ar yr hen dir ffermio ar y llechweddau i'r gogledd, ac ar y tir uchel i'r dwyrain o afon Aran, yn ogystal ag o fewn glyn Aran.

*'It is evident that the Romans had nothing to do in the ground plan of this town. The houses are just in the same order as the tartars pitch their tents.'*¹⁵

*'The Town has been built with an entire absence of preconceived plan, being an irregular network of narrow lanes, and the houses are often extremely cramped for space.'*¹⁶

Cytunai ymwelwyr ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg fod gan y dref olwg di-gynllun ac afreolaidd. Fe'i disgrifir mewn ffordd debyg i gan sawl un: Er enghraifft, dyma'r Parchedig William Bingley, sy'n dyfynnu 'a native of Dolgelle': "'There", says he, flinging on the table a handful of nuts, and

setting up a cork in the middle, "suppose each of these nuts a house, and that cork the church, you will have some tolerable idea of Dolgelle". The analogy holds good, for the streets are as irregular as it is possible to imagine them, the houses in general are low and ill-built'.¹⁷

Er gwaethaf ymdrechion amrywiol i osod trefn ar y dref yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, erys ei chynllun yn hynod o anffurfiol. (Cyfeiriwch at Fap 2 — tudalen 41). Mae'n cynnwys cyfres o leiniau afreolaidd o dir a fu unwaith yn ddaliadau unigol o bosibl, wedi'u gwasgaru'n fras o amgylch man agored heb unrhyw ffiniau penodol — yr ardal a ddaeth wedi hynny yn Stryd Fawr a Llys Owain, sef lleoliad y farchnad ganoloesol mae'n debyg. Gwnaed sawl tresmasiad ar y lle hwn, fel y dengys yr adeiladau heb dir a blociau o'i fewn. Mae'n debyg bod y rhain yn cyfateb i'r tresmasiadau y cyfeirir atynt yn y ddogfen o'r unfed ganrif ar bymtheg a ddyfynnir ar dudalen 9.

Mewn manau eraill, mae patrwm crwydrol y strydoedd yn rhannu patrwm o leiniau sydd bron yn gello, ac mae adeiladau'n cadw at y ffiniau cromliniol a oedd eisoes yn bodoli. Gallwn weld y ffordd yr oedd y ffiniau hyn yn cyfyngu ar waith adeiladu yn y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg oherwydd y mynych onglau lletraws, y corneli siamffrog a'r ffryntiadau crwm sydd mor nodweddiadol o'r dref. Mae'r nodweddion hyn yn dystiolaeth o ffiniau ac aliniadau cynharach a gollwyd mewn gwelliannau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg (e.e. y tu ôl i Eldon Row). Caiff y lleiniau afreolaidd hyn eu gwahanu gan rwydwaith o heolydd, lonydd a llwybrau troed, sy'n agor allan i fan ehangach yn achlysurol, sef rhai o'r sgwariau sy'n nodweddiadol o Ddolgellau. Mewn rhai ardaloedd, awgryma blociau o adeiladau heb dir fwy o dresmasu ar fannau agored eraill rhwng y lleiniau hyn: ar ben deheuol Pant y Pistyll, er enghraifft, a'r adeiladau a ddymchwelwyd bellach ar dir agored y Lawnt.

Yn amlwg y lleiniau cellog hyn oedd y sail ar gyfer datblygiad trefol. Efallai ei bod yn arwyddocaol bod nifer ohonynt yn cynnwys un tŷ mawr o darddiad cynnar posibl: The Unicorn, Plas Newydd, Plas Isaf a (a ymgorfforwyd yn The Golden Lion), Tan y Fynwent, Plas Gwyn, Plas Uchaf ac yn flaenorol, Cwrt Plas yn Dre. Mae hyd yn oed yr adeiladau cynharaf sy'n goroesi yn cadw at eu ffiniau (er enghraifft gweler y gornel siamffrog ar adain gefn gwesty The Torrent Walk, neu Pen Brynbella). Dangosir y lleiniau hyn yn glir ar y mapiau sy'n



dyddio o 1760 a 1794, ac roedd rhai eisoes wedi'u datblygu'n ddwys erbyn hynny. Mae'r mapiau hyn hefyd yn dangos strwythur y lleiniau lle yr ehangwyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg — e.e. ardal Heol Feurig/Bryn Teg, yr ardal i'r gorllewin o Heol y Pandy, ac (yn ddiweddarach) yr ardal i'r dwyrain o Ffos y Felin.

Mae'r strwythur lleiniau hwn yn cyfrannu'n gryf at gymeriad y dref, a phrin yw'r datblygu llinellol cyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg er gwaethaf y ffaith bod yr holl brif ffyrdd i mewn i'r dref yn ffyrdd tyrpeg erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif: 'Every entrance... is barred by a tumpike'.¹⁸ Roedd clwydi ar Ffordd Cader Idris, ar ben y bont, ac ar Bont yr Arran. Ond dim ond Ffordd Cader Idris oedd yn darparu llinell adeiladu glir, ac yna dim ond am hyd byr rhwng Heol y Capel a Heol Creggenan. Gallai adeiladu'r tyrpeg fod wedi golygu ad-drefnu llinell gynharach, gan yr ymddengys bod y ffordd yn torri ar draws ffiniau cynharach yn union i'r de o Dylau Mair. Yn anad dim, y strwythur lleiniau cellog oedd yn gyfrifol am gyfyngu ar y datblygiad a'i lunio. Wrth i boblogaeth y dref gynyddu, llenwyd yr aneddiadau bach hyn, er enghraifft, gyda datblygiad y cyrtiau, y mae'r rhan fwyaf ohonynt bellach wedi diflannu. Er enghraifft, dymchwelwyd Cwrt Uchaf a Chwrt Isaf, Heol y Pandy rywbryd ar ôl 1956. Erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd y datblygiadau yn ddwys iawn, ac arweiniodd prinder lle at ddulliau adeiladu dyfeisgar: cyfeiriodd Dr Parsons at dai cefn-wrth-gefn, a thai mewn haenau, un ar ben y llall. Enwodd Cwrt Lombard — saith tŷ yng ngwaelod cul cwrt yr eid iddo drwy fynedfeydd bwaog yn unig — ac English Terrace, a oedd yn ddwy res o dai cefn-wrth-gefn; a hefyd Adeiladau'r Capel, sef capel a gafodd ei droi yn wyth tŷ. Yn Hen Felin, roedd gan res o dai cefn-wrth-gefn drydedd set o denementau o dan y rhes gefn, a rhes arall gyda thair set o dai un



Chwith pellaf: Adeiladu dwys y tu ôl i'r Lawnt — un o'r enghreifftiau prin o ddatblygiad curt sydd wedi goroesi.

Crëwyd Ffos y Felin (chwith) a Heol Plas Uchaf (isod) ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan dorri drwy linellau lleiniau cynharach.



Roedd filâu'n nodweddiadol o duf y dref yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Nodweddion Adeiladu

ar ben y llall. Mabwysiadwyd deddfau lleol ar gyfer tai newydd yn 1884, ond yn ôl Dr Parsons cawsant eu hanwybyddu'n llwyr.¹⁹ Mae bron y cwbl o'r patrwm datblygu dwys hwn bellach wedi teneuo neu wedi diflannu'n llwyr; ond gellir gweld olion ohono o hyd ar ochr ddeheuol y Lawnt.

Yn ogystal, dechreuodd adeiladau amgylchynu lleiniau a fu'n wag ar y cyfan hyd hynny (ac a gâi eu defnyddio ar gyfer amaethyddiaeth). Mae hyn yn arbennig o wir i'r de o'r dref — sefydlwyd y llinell adeiladu led-barhaus ar hyd Heol y Pandy a'r Domen Fawr yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, lle dim ond adeiladau gwasgaredig a fu yno ar ddiwedd y ganrif flaenorol.

Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg ceisiodd tirfeddianwyr osod rhyw fath o drefn ar y clystyrau hyn o leiniau a ddatblygwyd yn ddwys. Mae'n debyg mai Eldon Row oedd y cyntaf o'r rhain — cofnodir olion trefniant cynharach ar fapiau ystad sy'n dyddio o 1794 a 1820, ac efallai gellir gweld olion hyn yn aliniad yr adeiladau a'r ffiniau y tu cefn i Eldon Row. Ffurfiwyd y strydoedd newydd ar ochr ddwyreiniol Stryd Fawr lawer yn ddiweddarach. Sefydlwyd Heol Plas yn Dre a Heol Glyndŵr yn groes i graen y ffiniau sefydledig yn y 1880au. Roedd creu'r strydoedd hyn yn golygu dymchwel adeiladau cynharach ar aliniadau eraill, yn cynnwys Cwrt Plas yn Dre ei hun ('amongst a range of wretched hovels at the back of the post-office' yn 1837), a ddisodlwyd gan siop nwyddau haearn yn ddiweddarach.²⁰ Mewn rhai achosion, blaendorrwyd adeiladau unigol yn ystod y broses hon: mae gan hen adeilad y masnachwyr amaethyddol ar Heol Glyndŵr ffryntiad o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ar yr hyn sy'n ymddangos yn adeilad cynharach. Roedd Ffos y Felin yn stryd newydd arall, gan ddilyn cafn melin cynharach, fel y dengys ei henw Cymraeg. Crëwyd Heol Plas Uchaf hefyd: dangoswyd ei llinell ragamcanedig ar gynllun yn dyddio o 1868, eiddo James Lloyd Tamberlaine. Ar raddfa lai ad-drefnwyd y stryd a'r patrwm adeiladu mewn mannau eraill gan gyfres o ddymchweliadau, yn bennaf i'r dwyrain a'r de o Stryd Fawr; lle, yn 1881, disodlodd Adeiladau Crosby res gynharach ar aliniad ychydig yn wahanol er mwyn ehangu'r gyffordd â Phorth Marchnad, lle y dymchwelwyd o leiaf un adeilad a oedd yn

Uchaf: Manylion gwaith cerrig, Heol y Pandy.

Canol: Manylion gwaith cerrig, ardal Stryd Fawr.

Gwaelod: Gwyngalch mewn portsh ym Mythynmod Pandy yr Odyn.



estyn allan i linell y stryd. 'At last the old houses at the top of Eldon Square... are being pulled down. It will be recollected that there was a good deal of haggling with respect to the gable end of one of these houses, which the conditions of sale stated was to be removed further in, whenever it would be rebuilt. The effect of such removal would be the widening of the street corner opposite Victoria Buildings by about three feet. Thirty years ago... another building outside this disputed gable was pulled down by the late Sir Robert Vaughan, its then owner, for the purpose of widening the street'.²¹

Mewn manau eraill, digwyddodd datblygiadau diweddarach ar dir nad oedd wedi'i ddatblygu yn flaenorol. Ehangodd y dref i'r de-orllewin, yn bennaf gyda thair mwy o faint a chyfres o filâu gyda'u gerddi eu hunain, ac i'r dwyrain, lle datblygwyd ardal ddiwydiannol a phreswyl newydd rhwng stryd newydd Ffos y Felin ac afon Aran, rhwng 1886 a 1900. Yn ogystal sefydlwyd maestref fach breswyl ar hyd Pont yr Arran, lle gosodwyd lleiniau i'w gwerthu yn 1877. Ar ôl dyfodiad y rheilffordd, datblygwyd yr ardal i'r gogledd o afon Wnion, er mai filâu mawr a thair llety oedd yn nodweddiadol yno: datgelir eu dyheadau pictiwresg nid yn unig drwy'r amrywiaeth weledol ac addurniadau'r adeiladau eu hunain, a'u gerddi wedi'u plannu'n dda, ond hefyd yn eu henwau, y mae thema goediog gan nifer ohonynt (Hafod y Coed, Coed Cymmer; a Tyn y Coed).

Deunyddiau a Gorffeniadau Waliau

Yn ddiau mae Dolgellau yn dref a adeiladwyd â cherrig a llechi. Fodd bynnag, ar un adeg roedd yn gartref i un o'r adeiladau ffrâm bren prin a gofnodwyd ym Meirionydd — Cwrt Plas yn Dre, a gall fod olion fframiau pren yn The Old Courthouse a Phlas Newydd hefyd. Ond o'r ail ganrif ar bymtheg o leiaf, cerrig a ddefnyddid yn bennaf ar gyfer adeiladau cynhenid, ac ni newidiodd hyn tan yr ugeinfed ganrif. Ni lwyddodd hyd yn oed ddyfodiad y rheilffordd i gynyddu'r defnydd o friciau.

Mae'r ddaear leol yn cynhyrchu digonedd o gerrig (ceir chwareli i'r de-orllewin o'r dref ger Heol Creggenan, ac uwchben Bryn Teg), ond nid hon yw'r garreg fwyaf hydrin ar gyfer adeiladu o reidrwydd, gan ei bod yn anodd ei thorri a'i naddu. Yn gyffredinol fe'i gweithiwyd mewn blociau mawr; ac roedd angen cryn dipyn o ddyfeisgarwch i'w thrin. 'The masonry of Dolgelley merits particular notice. From time immemorial, they have built with very large stones, even to the top, lifting the stones to the work from towards the middle course, with an immense machine, which takes above a day to erect,



Uchod: Gwyngalch ar adeilad ategol yng Nghoed Wenallt.

Chwith: Cerrig o'r afon a ddefnyddiwyd mewn hen weithdy, Heol y Pandy.

Gwaith carreg patrymog wedi'i sgwario, Pen-y-bont.

as to require a lever of that vast power. Quere if this is not a dear sort of masonry. The lintels of doors and windows are generally of immense stones'.²²

Rydym eisoes wedi dod ar draws y newidiadau a wnaed i gynllun Dolgellau o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg ymlaen, i geisio gwneud lle ar gyfer y cynnydd mewn traffig ar strydoedd y dref. Ar y cyd â'r newidiadau hynny ac oherwydd bod Dolgellau wedi datblygu yn gyrchfan i dwristiaid, trawsnewidiwyd golwg adeiladau'r dref yn sylweddol. Aeth Dolgellau ati yn fwriadol i greu hunaniaeth weledol newydd iddi hi ei hun drwy broses systematig o gael gwared ar orffeniadau allanol traddodiadol. Nodweddir y treflun gan waliau trwchus o gerrig llwyd, tywyll bellach. Ac eto ceir tystiolaeth bendant i'r tu allan i'r rhan fwyaf o'r adeiladau hyn gael eu gorchuddio gan rendrad calch a/neu wyngalch cyn trydydd chwarter y bedwaredd

Dde: Gwaith carreg patrymog wedi'i sgwario, y Lawnt.

Dde pellaf: Gwaith carreg cynhenid, Ffordd Cader Idris.



Dde: Arddulliau gwaith carreg cyferbyniol, The Golden Lion.

Dde pellaf: Carreg nadd rhychog, hen Orsaf yr Heddlu.



ganrif ar bymtheg. Gellir gweld olion o'r gorffeniadau hyn ym mhob man yn y dref. Gwyn oedd y lliw mwyaf cyffredin a ddewiswyd ar gyfer y gwyngalch, er bod ambell i unigolyn mentrus wedi dewis lliw pinc. Mae'r rendrad a'r gwyngalch i'w gweld o hyd ar lawer o'r adeiladau a godwyd yn y 1830au a'r 1840au.

Mae'n anodd pennu'r dyddiad pan ddechreuwyd crafu'r gorffeniadau traddodiadol i ffwrdd, ond mae'n debyg i'r arfer gynyddu yn weddol gyflym. Dywed disgrifiad a ysgrifennwyd yn 1850 'the site is so lovely and the grouping of the grey stone buildings so good at most points that the traveller is somewhat disappointed on entering the mean irregular streets to find that distance has lent enchantment to the view'.²³

Ymddengys mai cerrig noeth oedd y gorffeniad dymunol a ffasiynol erbyn y 1870au, sy'n gysylltiedig â'r defnydd o dechnegau naddu penodol (gwaith carreg o gerrig sgwâr ac yn arbennig gwaith carreg caregog). Ysgogwyd y newid gan y camsyniad Fictoraidd mai cerrig noeth oedd y gorffeniad hynafol a naturiol dyls. Dinoethwyd y rhan fwyaf o eglwysi canoloesol yng Nghymru o'u rendradau gwreiddiol yn yr un cyfnod am yr un rheswm, ond peth prin yw canfod tref gyfan yn cael y fath driniaeth. Ar gyfer lle oedd yn dymuno denu ymwelwyr drwy hyrwyddo ei hun fel tref farchnad hynafol, rhaid bod y broses wedi ymddangos yn ddeniadol, a throwyd strydoedd disglair gwyn Dolgellau yn llwyd diflas.

Ymddengys mai prin iawn oedd yr achosion o rendrad llawn neu aml-haenog. Ymddengys mai'r dechneg arferol oedd pwyntio uniadau'n llawn, weithiau gyda haen denau o forter yn ehangu ar draws wynebau cerrig. Yna unwyd y cyfan drwy osod sawl haen o wyngalch, a oedd yn datblygu'n ddiwrthdro fel croen amddiffynnol ar wyneb allanol yr adeilad, gydag amlinellau cerrig unigol yn pylu a



Uchod: Llechi graddedig ar The Unicorn.



Chwith: Simneiau yn ardal Heol Feurig.



Chwith pellaf: Enghraifft brin o lechi graddedig sydd wedi goroesi, Heol Feurig.

Chwith: Cafnau wedi'u hadfer yn The Golden Lion.

meddalau yn y broses.

Nid oes unrhyw adeiladau a rendrwyd neu a wyngalchwyd yn llawn yn goroesi yn y dref, er bod enghreifftiau i'w gweld o hyd ar gyrion y dref. Yr hyn a erys yw drychiadau unigol, gan amlaf mewn lleoliadau na all y cyhoedd eu gweld, ac weithiau nodweddion achlysurol fel y tu fewn i bortsh neu res o risiau. Mae angen diogelu'r enghreifftiau hyn sydd wedi goroesi, a chaiff perchenogion eu hannog (a'u cynorthwyo'n ariannol) i'w cadw drwy eu hatgyweirio ac ychwanegu haenau pellach o wyngalch atynt. Lle ceir tystiolaeth dameidiog ar adeiladau eraill, dylid ei nodi, ei gwarchod rhag niwed neu ei gwarchod rhag cael ei gwaredu yn ystod unrhyw waith atgyweirio neu addasu. Ni ddylid diystyru'r syniad o ailgyflwyno rendrad a gwyngalch i adeiladau a oedd â'r gorffeniadau hyn yn flaenorol, a



Uchod: Manylion pensaernïol wedi'u cadw'n dda, Heol y Pandy.

Dde: Gwaith paent a ffenestri codi traddodiadol, Porth Marchnad.



gellid gwneud hyn o fewn categori cymorth cynllun Menter Treftadaeth Trefluniau i ailgyflwyno manylion pensaernïol coll. Yn fwy perthnasol efallai, gellid hyrwyddo'r defnydd o orffeniadau traddodiadol ar gyfer safleoedd mewnlenwi neu ddatblygiadau ymylol, lle byddai eu defnyddio yn rhoi'r fantais economaidd o ganiatáu dewis cerrig o ansawdd is, neu hyd yn oed gerrig 'artiffisial'.

Yn ogystal â gorffeniad yr arwyneb, ceir hefyd gryn dipyn o amrywiaeth o ran y modd y cafodd y cerrig eu trin. Roedd blociau mawr o'r chwarel a weithiwyd yn arw yn unig yn nodweddiadol o adeiladau cynharach (er enghraifft, Tan y Fynwent), a cheir enghreifftiau prin o ddefnyddio clogfeini o'r afon (er enghraifft, ar gyfer y gweithdai ar Heol y Pandy). O ddiwedd y ddeunawfed ganrif, gwnaed mwy o ddefnydd o gerrig nadd wedi eu gosod ar haenau mwy rheolaidd, ac arddull adeiladwaith nodweddiadol lle y defnyddid cerrig llai i lenwi uniadau blociau afreolaidd er mwyn helpu i greu'r haenau. Adlewyrchai'r amrywiaeth hon ddatblygiadau mewn technegau gwaith cerrig ac mae'n rhoi clwbiau pwysig o ran cyfnodau adeiladu ac addasu. Roedd technegau hefyd yn amrywio yn ôl lefelau buddsoddi, gan roi arwydd o statws adeilad. Defnyddid popeth o gerrig nadd cain (e.e. rhannau o The Golden Lion a gorsaf yr heddlu), i gerrig llanw garw, a daeth yn fwyfwy cyffredin i wahaniaethu rhwng y prif ffasâd (lle y gwnaed y gwaith mwyaf cain) a'r waliau ochr a'r waliau cefn. O 1870, bu newid sylweddol o ran naddu a gweithio cerrig: arddull ffasâd gwaith maen llanw caregog oedd i'w gweld fwyaf yn adeiladau'r dref ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, gan ragori ar enghreifftiau o dechnegau eraill megis cerrig nadd addurnedig Agriculture House.



Toeon

Gan droi nawr at ddeunyddiau eraill yn y dref, mae rhai enghreifftiau prin wedi goroesi o'r technegau llechi traddodiadol a fu unwaith yn gyffredin yn Nolgellau cyn dyfodiad y rheilffyrdd a'r llechi mawr tenau o'r Penrhyn a Bethesda sydd i'w gweld bron ymhob man. Dylid gwarchod toeon o haenau afreolaidd neu leihaol yn ofalus, fel y dylid gwarchod yr enghreifftiau prin o waith llechi ysgubedig a lasiog hybrid sy'n nodweddiadol o doeon hanesyddol yn y dref a'r ardal. Mae'n amlwg nad yw'n bosibl ailgyflwyno'r math hŷn hwn o doeon yn gyffredinol, ond gellid ei hyrwyddo wrth roi toeon newydd ar y tai prin o'r ail ganrif ar bymtheg sydd wedi goroesi yn y dref, ac yn enwedig adeiladau bach cynhenid megis Fro Awel a Cemlyn House.

Mae Dolgellau'n ffodus bod ganddi doeon sy'n creu llinell fywiog a nodweddiadol a'r elfen amlycaf yw'r simneiau (er mae'n werth cofio talcennau, dormerau a waliau onglog amlwg y dref hefyd). Mae simneiau Dolgellau yn tueddu i fod yn fawr ac yn amlwg. Mae eu cyfodiad â'i gilydd, a'u defnydd o ddyfeisiau megis capanau addurnedig a gogwydd toeon, yn darparu tystiolaeth hollbwysig ar gyfer dyddiadau adeiladu a dilyniant datblygiadau. Ni ddylid lleihau na symud simneiau, p'un a yw'r adeilad yn rhestredig ai peidio. Mae gadael adeilad heb simneiau yn cael effaith andwyol ar gymeriad yr adeilad ac ar gymeriad y dref gyfan. Os yw'n bosibl,



dylid annog dylunwyr strwythurau newydd yn Nolgellau i gynnwys simneiau — ac nid enghreifftiau hirfain ychwaith.

Chwith uchaf: Bwthyn Pont yr Arran — un o'r enghreifftiau gorau o fythynmod cynhenid a oedd yn nodweddiadol o Ddolgellau cyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Uchod a dde pellaf: Tai diwydiannol mewn datblygiad cynlluniedig y tu cefn i Heol Glyndŵr.

Chwith: Mae cyfansoddiad cymesur yn dynodi datblygiad cynlluniedig ar Bont yr Arran.

Ardaloedd â Nodweddion

Manylion Pensaernïol

Mae'r dref yn nodedig am ei ffenestri gwreiddiol a welir ymhob man, y mae'n rhaid diolch i'r staff cadwraeth yn Swyddfa'r Parc Cenedlaethol am hynny i raddau helaeth. Ni ellir gorbwysleisio mai ffenestri a'u manylion cyfnod nodweddiadol sy'n darparu'r cliwiau amlycaf a mwyaf dibynadwy i oedran adeilad. Mae Dolgellau hefyd yn ffodus am fod enghreifftiau di-rif o'r gwydr gwreiddiol wedi goroesi. Dylai unrhyw waith i atgyweirio neu adnewyddu ffenestri yn y dref geisio cadw ac aildefnyddio'r gwydr presennol fel mater o arfer. Mae'n adnodd prin, gwerthfawr a phenodol o adeiledd hanesyddol. Wrth gwrs, ceir ffenestri o ddyluniad amhriodol neu ffenestri UPVC.



Uchod: Mae llinell adeiladau Wtra'r Felin yn adlewyrchu ffin llain gynharach.

Dde: Adeiladwyd Pen-y-bont gan gadw at linell llain gynharach, ond yn sgîl gwelliannau trefol a wnaed yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg yr adeiladwyd llinell syth Ffos y Felin (dros hen gafn melin).



Y gobaith yw, drwy gychwyn Menter Treftadaeth Treflun, a chyflwyno Cyfarwyddiadau Erthygl 4 gan yr awdurdod cynllunio lleol, yn ogystal â grantiau hael i osod ffenestri newydd addas yn lle'r ychydig enghreifftiau amhriodol, y bydd ffenestri Dolgellau yn fodel i'w efelychu gan drefi eraill yng Nghymru.

I gloi, dylid sôn am wynebau blaen siopau. Mae gan Ddolgellau rai enghreifftiau hanesyddol cain iawn, y dylid eu gwarchod a'u trysori. Ond fel llawer i dref arall, mae gormod o enghreifftiau modern, hyll wedi'u cyflwyno sy'n anghywir o ran graddfa a deunyddiau. Dylai rhaglen wella gyson drwy ddefnyddio polisiau Rheoli Datblygu sensitif, ynghyd â chymhellion ariannol o bosibl drwy'r Fenter Treftadaeth Treflun, ddod â manteision treflun sylweddol i'r dref. Ond rhaid gwyllo rhag cynigion 'cydweddu' arferol. Yn ddiethriad nid yw'r rhain yn dangos fawr ddim dealltwriaeth o adeiladwaith a manylion cyfnod, ac mae'r canlyniadau'n amlwg yn ffug ac anfodddhaol. Dylai lluniadau manwl ar raddfa fawr, yn enwedig o wneuthuriad gwaith asio, ategu wyneb blaen pob siop newydd arfaethedig. Mae cynllun syml yn aml yn sicrhau gwell canlyniadau na chynllun sydd wedi'i orlethu â thrugareddau gormodol o gyfnod Fictoria. Cymesuredd da, manylion a gynlluniwyd yn dda a deunyddiau o ansawdd yw'r agweddau hanfodol. Afraid dweud bod Dolgellau yn dref o waith coed paentiedig, nid yn unig o ran wynebau blaen siopau ond hefyd o ran pob ffenestr a drws, a dylid ystyried pren wedi ei staeio neu ei farneisio fel ymyrraeth estron.

Mathau o Adeiladau

Ceir amrywiaeth hynod o adeiladau domestig yn Nolgellau, sy'n awgrymu strwythur cymdeithasol cymhleth. Ymysg yr adeiladau cynharaf sydd wedi goroesi mae math o fwthyn cynhenid nodweddiadol sy'n unffurf iawn. Erbyn diwedd yr ail ganrif ar bymtheg ac yn ystod y ddeunawfed ganrif, roedd y stoc adeiladau hefyd yn cynnwys plasdai trefol mawr (Plas Gwyn, Plas y Ffynnon, Plas Isaf). Mae'r gwaith adeiladu newydd helaeth a wnaed yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg wedi rhoi strwythur cymdeithasol llawer mwy cyflawn i ni, yn amrywio o fythynnod

bach iawn i filâu mawr iawn, sy'n adlewyrchu economi a chymdeithas amrywiol y dref yn ystod y cyfnod hwn.

Er bod terasau byr a thai pâr a bythynnod eisoes yn cael eu hadeiladu ynghyd â thai unigol yn yr ail ganrif ar bymtheg, roedd yr unedau datblygu yn fach ar y cyfan tan ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Hyd yn oed pan grëwyd strydoedd newydd yn ddiweddarach yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, unedau bach oedd patrwm nodweddiadol yr adeiladau o hyd: er enghraifft, roedd Heol Plas Uchaf yn cynnwys terasau, tai pâr a fila sengl. Cyflwynwyd cynlluniau adeiladu mwy unedig ar gyfer y datblygiad ychydig yn ddiweddarach i'r de o Heol Glyndŵr lle roedd Aberwnion Terrace ac English Terrace yn cynnwys blociau o dai cefn wrth gefn yn wreiddiol, ac i'r gogledd o Bont yr Arran lle cafodd datblygiad unedig ei bwysleisio mewn cyfansawdd cymesur. Cyflwynodd adeiladau tai cyngor yr ugeinfed ganrif (ac i raddau llai adeiladau hapfasnachol rhwng y rhyfeloedd) ddatblygiad unedig ar raddfa lawer mwy. Mae hyn wedi bod yn nodwedd ar ddatblygiadau mwy diweddar — boed hynny wedi ei gyfleu drwy gyfrwng grwpiau teras (e.e. Nant y Gader, Heol Creggenan) neu unedau ar wahân sy'n cael eu hailadrodd — er y gwelwyd datblygiad unigol tameidiog hefyd ar Heol Creggenan, Ffordd Bodlondeb, a'r hen lôn i Fryn y Gwin.

Trafodwyd y mathau amrywiol o adeiladau sy'n arwydd o economi ddatblygol y dref yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg eisoes yn yr adran *Diwydiant a Masnach*: mae cyfres eithriadol o dda o adeiladau diwydiannol a masnachol o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn dystiolaeth rymus o bwysigrwydd y diwydiant tecstilïau a'r gyfundrefn manwerthu.

Strydoedd: Dodrefn a Gorffeniadau

Erys elfennau helaeth o arwynebau traddodiadol yn y dref — mae blaengyrtiau coblog yn arbennig o nodweddiadol, ac mae enghreifftiau da wedi goroesi o flaen The Royal Ship, ac ar hyd Heol Feurig. Ar ôl dyfodiad y rheilffordd, cyflwynwyd palmentydd Glas Swydd Stafford gyda phatrwm diemwnt rhychiog a ddefnyddid gydag ymylfeini llechi neu glai. Mae'n debyg y cafodd yr arwyddion stryd haearn bwrw sydd hefyd wedi goroesi o amgylch y dref eu gwneud mewn ffowndri leol.



Adeiladau Crosby: datblygiad unedig o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.



Mae Pen-y-bont yn enghraifft gynnar o adeilad o waith adeiladu trefnedig — teras byr yn hytrach na thŷ sengl.



Gorffeniad gwyngalch traddodiadol wedi'i adfer yn nhafarn Y Cross.

Manylion gwaith cerrig yn Tŷ Meirion.



Dde: The Golden Lion gyda gwaith carreg cain, ychwanegiad i adeilad cynharach a wnaed yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg.



Isod: Tystiolaeth o'r diwydiant tecstiliau yn Forden House.



I.Y Canol

(Stryd Fawr, Llys Owain,
Heol y Bont, Ffos y Felin,
a Phorth Marchnad)

Datblygiad Hanesyddol a Thirwedd

Mae Stryd Fawr a Llys Owain yn ffurfio man agored canolog wedi'i amgylchynu gan gyfres o leiniau tir cellog sy'n agos at ei gilydd. Lleoliad marchnad yr anheddiad yn y canoloesoedd oedd y man agored hwn siŵr o fod. Mae'n bosibl bod cyfres o dresmasiadau amlwg ar fan agored y sgwariau yn dyddio o gyfnod cynnar (cyfeiriwyd at dresmasiadau mewn achosion llys yn yr unfed ganrif ar bymtheg a'r ail ganrif ar bymtheg). Mae Tŷ Meirion, The Old Courthouse (neuadd y dref cyn 1825 mae'n debyg, gyda llawer o adeiladwaith o'r ail ganrif ar bymtheg), ac efallai The Royal Ship a'r Central Buildings — efallai Eldon Row ei hun hyd yn oed — yn nodweddiadol o dresmasiadau, lle mae'r adeilad yn llenwi'r holl lain fel safle 'ynys'.

O amgylch ardal y farchnad, datblygwyd lleiniau tir ar wahân yn raddol gydag adeiladau. Ar y lleiniau hyn, roedd yr adeiladau yn cadw at y ffiniau, a arweinai at gorneli ag onglau rhyfedd mewn manau. Ond gwnaed gwaith adeiladu y tu mewn i'r lleiniau hefyd: mae adeilad y golchdy y tu ôl i Rifau 1–3 Pen-y-bont yn enghraifft o hyn, a cheir olion amlwg o enghreifftiau eraill yn y bloc hwn, a rhwng Wtra'r Felin a Phorth Marchnad. Rhannwyd y lleiniau tir hyn gan lonydd a strydoedd cefn cul nes i ymgyrch i wella ac ailadeiladu'r dref yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg gyflwyno llinellau newydd i'r strydoedd a'r adeiladau. Ad-drefnodd Eldon Row ei hun linell adeiladu cynharach ar ochr orllewinol Stryd Fawr: efallai bod cliwiau i'r patrwm adeiladu cynharach yn aliniad yr adeiladau a'r ffiniau yn y cefn. Mae Wtra'r Felin, Heol y Dŵr a Heol y Bont yn nodi rhaniadau cynnar rhwng lleiniau, a datblygwyd Ffos y Felin ar linell hen gafn melin. Roedd Heol Plas yn Dre a Heol Glyndŵr yn torri drwy lain gynharach, gan dorri ar draws aliniadau adeiladau blaenorol. Dymchwelwyd tŷ canoloesol Cwrt Plas yn Dre yn 1885 yn ystod y rhaglen waith hon. Cofnodwyd y tŷ cyn ei ddymchwel, ac mae darluniadau'r arolwg yn dangos mai tŷ ffrâm bren ydoedd yn wreiddiol, gyda chyplau crwn cain yn y neuadd agored. Cafwyd ymgyrch fer aflwyddiannus i'w achub,



The Cottage, Pant y Pistyll: bwthyn cynhenid traddodiadol, ac enghraifft o ddwysedd y gwaith adeiladu yng nghanol y dref.



Roedd ffin flaenorol llain yn golygu bod angen yr ongl fain y tu cefn i Rif 1 Porth Canol.

ond ailadeiladwyd rhan ohono yn y Drenewydd lle mae'n goroesi fel Tŷ Cwrdd y Crynwyr.

Nodweddion Adeiladu

Pwysleisir pwysigrwydd ardal ganolog y dref, gan gyfnodau olynol o fuddsoddiad yn ei adeiladau (yn cynnwys cyfnodau o ailadeiladu). Er y ceir olion pwysig o hanes cynharach, mae llawer o'r nodweddion adeiledig yn deillio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cafwyd cyfnod nodweddiadol o adeiladu tua 1820–40, ac ail gyfnod pwysig tua 1880, ond mae'n amlwg mai gwaith ailadeiladu a wnaed yn hytrach nag adeiladu o'r newydd.

Caiff ei phwysigrwydd ei fynegi hefyd yng ngraddfa'r

adeiladu yn yr ardal hon, o ran maint adeiladau unigol (mae gan lawer ohonynt dri llawr), ac o ran maint unedau datblygu: mae Eldon Row ac Adeiladau Crosby yn enghreifftiau o ddatblygiadau cynlluniedig o 1830 a 1880 yn y drefn honno. Ymysg enghreifftiau eraill o ddatblygiadau ar raddfa fawr o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg mae Adeiladau Glyndŵr a'r bloc ar Ffos y Felin rhwng Cae Tanws Bach a Heol Glyndŵr.

Mae adeiladau cynhenid ar Wtra'r Felin (rhan o Westy The Torrent Walk a thafarn Y Cross) a Heol y Dŵr (Rhifau 1–2) yn goroesi o gyfnod datblygu cynharach yn yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif, gan gadarnhau tarddiad cynnar y strwythur lleiniau hwn ac yn amlwg yn cadw at ei ffiniau. Ceir cofnodion o adeiladau cynhenid eraill ond maent wedi'u colli erbyn hyn — The Old



Swan (ar safle Adeiladau Glyndŵr o bosibl), a thafarn The Castle ar gornel dde-orllewinol Heol Plas Isaf.

Ceir enghreifftiau o waith adeiladu mwy uchelgeisiol yn yr ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif. Mae rhan gefn Plas Newydd yn ymgorffori'r hyn y credir ei fod yn dŷ o'r ail ganrif ar bymtheg, gydag wyneb â ffrâm bren o bosibl hefyd. Plasdy trefol mawr oedd Plas Isaf yn perthyn i ystad Nannau, a ailadeiladwyd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg (a ymgorfforwyd yn The Golden Lion). Ceir enghraifft bosibl arall o dŷ o'r ail ganrif ar bymtheg, a restrwyd fel Dilys Meredith, ar Borth Marchnad. Erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif roedd datblygiadau adeiladu gwahanol yn mynd rhagddynt a oedd yn fwy amlwg o natur drefol: mae Rhifau 1–3 Heol y Bont a thafarn The Stag, a Rhifau 1–3 Pen-y-bont yn derasau byr o blasdai trefol llai, sy'n awgrymu proses adeiladu hapfasnachol.

Mae'r adeiladau cynhenid cynnar yn nodweddiadol ar raddfa fach (gyda llawr a hanner), ac wedi'u hadeiladu o rwbel (adferwyd gorffeniad gwyngalch tafarn Y Cross). Mae'r adeiladau cynhenid mwy o'r cyfnod hwn, a'r adeiladau trefol cynnar o ddiwedd y ddeunawfed ganrif hefyd wedi'u hadeiladu o rwbel, a cheir arwyddion cryf bod gwyngalch yn gyffredin — er enghraifft, erys olion ohono ar Dilys Meredith, Porth Marchnad.



Uchod: Tystiolaeth o'r diwydiant gwlan yn y Lawnt.

Dde: Ffrynt siop wedi'i gadw'n dda yn Rhif 1 Ffordd y Marian.

Yn ystod y gwaith adeiladu ac ailadeiladu helaeth ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, mabwysiadwyd ffurfiau adeiladu trefol nodedig — yn nodweddiadol gydag o leiaf dri llawr ac mewn traddodiad Sioraidd. Mae teras ffurfiol Eldon Row yn enghraifft eithriadol, ond mae Tŷ Meirion hefyd yn dangos soffistigeiddrwydd y gwaith adeiladu (ceir haenau lasin yn ei rwbel haenog ar bob llawr), ac yn y manylion (drychiad cymesur, ffenestri codi tridarn a blaen siop clasurol). Ymysg yr adeiladau eraill o'r cyfnod hwn mae adeilad Boots, Siop Hughes, a'r popty ym Mhorth y Farchnad. Roedd y gwaith carreg yn arw fel arfer, gyda blociau wedi'u sgwario'n arw a'u pacio gyda cherrig llai, neu wedi'u sgwario'n fwy rheolaidd.

Mae'r ffyniant mewn gwaith adeiladu ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yn amlwg ar ochr ddwyreiniol canol y dref. Mae'r adeiladau yn fawr yn nodweddiadol: tri llawr neu fwy ac yn cynnwys sefydliadau masnachol sengl mawr neu flociau o siopau neu dai. Defnyddiwyd gorffeniad o waith maen llanw fel arfer ar gyfer ffasadau, gan gyferbynnu â'r rwbel mwy garw a ddefnyddid ar furiau'r cefn a'r ochr. Defnyddid arddull palazzo ar rai o'r adeiladau masnachol mwy gyda manylion cyfnod y dadeni a chyfansoddiad cryf.

Fel calon fasnachol y dref, mae'r ardal yn cynnwys arwyddion da o'i datblygiad economaidd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Er bod cymysgedd o adeiladau domestig yn yr ardal, mae iddi gymeriad masnachol cryf. Caiff y diwydiant tecstilïau ei gynrychioli'n dda: mae Forden House yn adeilad diwydiannol cynnar sy'n cynnwys lloffydd gwehyddu, ac mae'n bosibl bod Tŷ Meirion wedi cynnwys warws, gweithdai neu unedau manwerthu. Mae Central Buildings yn enghraifft wych o farchnadfa o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg sy'n cyfuno elfennau warws a manwerthu. Tŷ o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yw Plas yn Dre a defnyddiwyd yr atig fel warws. Chwaraeai gwestai a thafarndai ran bwysig yn economi'r dref yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Enghraifft ragorol o hyn yw The Golden Lion a oedd yn cynnwys Plas Isaf ac a ailadeiladwyd gan Robert Vaughan yn 1839 — mae ei gyfansoddiad pensaerïol ac ansawdd y deunyddiau (carreg nadd) yn arwyddion o'i ddyheadau. Mae The Royal Ship hefyd yn dystiolaeth o fasnach a oedd yn ehangu oherwydd maint yr ychwanegiadau a wnaed yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg i adeilad o ddechrau'r ganrif honno a oedd eisoes yn adeilad sylweddol. Ceir amrywiaeth dda o adeiladau siopau hefyd, y mae'r Senedd-dy ac Adeiladau Glyndŵr yn enghreifftiau arbennig o dda o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Adeiladwyd Adeiladau Crosby hefyd at y diben fel rhes o siopau.



2. Ardal y Lawnt

Datblygiad Hanesyddol a Thirwedd

Fel yr ardal ganolog, mae'r ardal hon yn cynrychioli rhan o graidd y dref, ac mae'r datblygiad yn seiliedig ar gyfres o leiniau afreolaidd wedi'u gwahanu gan lonydd cul. Efallai y bu manau agored mwy o faint rhwng y lleiniau tir hyn hefyd, y tresmaswyd arnynt gan adeiladau yn ddiweddarach, gan arwain at y bloc adeiladu nodweddiadol heb dir o'i amgylch. Ceir enghraifft dda o'r datblygiad 'ynys' hwn yn yr ardal rhwng dwy gangen Pant y Pistyll (ardal na chafodd ei datblygu tan y bedwaredd ganrif ar bymtheg), ac roedd adeiladau yn arfer bod yn ardal agored y Lawnt (a ddymchwelwyd yn yr ugeinfed ganrif).

Mae'r adeiladau yn cadw at ffiniau'r lleiniau hyn, gan arwain at rai onglau sydyn neu ffryntiadau crwm. Ond ceir tystiolaeth hefyd o ddatblygiad y tu mewn i'r lleiniau — er bod y bwthyn cynnar ar Bant y Pistyll (The Cottage) yn hŷn na'r adeiladau o'i amgylch sydd i gyd yn dyddio o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae dau gwrth wedi goroesi ar ochr ddeheuol y Lawnt sy'n ein hatgoffa o ddwysedd y gwaith adeiladu yn y dref yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Ardal y Lawnt oedd yn dynodi terfyn y dref i'r gogledd-orllewin, ac er bod llinell gul yr adeiladau ar hyd y ffin ogledd-orllewinol wedi'i sefydlu'n gynnar, ni ddatblygwyd y tir y tu ôl iddi tan yr

Graddau cyferbyniol datblygiad: Glan Arran, Heol y Pandy.

ugeinfed ganrif.

Nodweddion Adeiladu

Roedd llawer iawn o waith adeiladu dwys wedi mynd rhagddo yn yr ardal erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif, ond adeiladwyd y rhan fwyaf o'r adeiladau ar ôl 1800. Ymysg yr adeiladau cynharaf mae The Cottage ar Bant y Pistyll, sy'n fwthyn cynhenid o'r ail ganrif ar bymtheg o bosibl. Efallai fod yr adeiladau ar Lôn Bobty hefyd yn gynnar, a chredwyd bod rhes o elusendai yma (a ddymchwelwyd yn ystod yr ugeinfed ganrif) wedi'u hadeiladu yn 1616. Mae Tan y Fynwent yn blasdy trefol o'r ail ganrif ar bymtheg neu'r ddeunawfed ganrif ac mae'n ddangosydd pwysig o gyfoeth a statws yn y cyfnod hwnnw.

Mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau yn yr ardal yn perthyn i'r cyfnod 1800–1850, a phrin iawn yw'r adeiladau o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg (ymysg yr eithriadau mae Islwyn Terrace yn y Lawnt, a phâr o filâu cul ger hen Orsaf yr Heddlu). Mae'r rhan fwyaf

o'r adeiladau yn amlwg yn drefol, wedi'u hadeiladu fel cyfres o barau neu derasau mewn arddull gynhenid Sioraidd, a gymhwyswyd i dai a bythynnod o faint a statws amrywiol.

Mae dylanwad strwythur sylfaenol y lleiniau yn amlwg iawn, yn enwedig ar Bant y Pistyll, lle mae Rhifau 5 a 6 wedi'u hadeiladu gyda ffryntiad crwm, sy'n gwrthgyferbynnu â ffasadau onglog Rhifau 2 a 3. Wrth gyffordd Pant y Pistyll a Phorth Canol, mae gan Rif 1 Porth Canol dalcen ag ongl fain iawn. Gellir gweld arwyddion o'r llinellau ffin a oedd yn bodoli cyn adeiladu Eldon Row yn ffasâd onglog debyg bloc Gladstone House.

Dde: Mae ffenestri mawr a manylion gothig Bryntirion a adeiladwyd i wasanaethu'r diwydiant turisticaeth a oedd ar gynnydd, yn nodweddiadol o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.



Isod: Mae rhesi anffurfiol o dai mawr yn nodweddiadol o'r datblygiad yn Ardal y De yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.





Er bod yr ardal bellach yn ddomestig iawn o ran ei chymeriad roedd wedi'i hintegreiddio'n llawn yn economi ddiwydiannol a masnachol y dref. Adeiladwyd Rhif 4 y Lawnt i gynnwys ffatri wlân ar ei lloriau uchaf, ac mae Melin y Cambrian ar Bant y Pistyll gyda'r gweithdy y tu ôl iddo bron yn sicr yn gysylltiedig â'r diwydiant tecstilïau. Mae'r Hen Fanc yn enghraifft gynnar o adeilad masnachol na ellir gwahaniaethu rhyngddo â thŷ (yn wahanol i Fanc North and South Wales o gyfnod diweddarach yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg wrth gyffordd Ffordd y Marian a'r Lawnt. Ceir enghreifftiau da o siopau bach o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn Rhif 1 Ffordd y Marian a Llys y Delyn, y Lawnt. Yn yr ardal hon roedd gorsaf gyntaf yr heddlu hefyd yn 1850.

3. Yr Ardal Ddeheuol

(Heol Feurig, Heol y Pandy, y lôn i'r gorllewin o Fryn Teg, Tylau Mair, a Phorth Canol)

Datblygiad Hanesyddol a Thirwedd

I'r de o Borth Marchnad i Ffordd Cader Idris mae patrwm y datblygiad hefyd yn seiliedig ar strwythur lleiniau cellog. Mae'r bloc o dir sy'n ffinio â Phlas

Newydd i'r gogledd yn enghraifft arbennig o dda, gyda'r adeiladau bron yn ffurfio cylch, a chydag adeiladu dwys yng nghanol y llain (yn cynnwys rhai adfeilion). Roedd Heol Feurig, Bryn Teg a Phorth Canol yn ffurfio ffiniau llain arall ar un adeg, a gafodd ei rhannu pan grëwyd Heol Plas Uchaf yn y 1860au. Mae pwysigrwydd y strwythur llain hwn ar gyfer datblygiad yn amlwg ym Mhorth Canol, lle mae adeiladau yn cadw at ffiniau lleiniau cynharach yn hytrach na llinell y ffordd. Roedd dwy ochr Heol Feurig yn adeiledig erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif, a cheir sawl tŷ cynhenid cynnar yma. Mae mapiau 1760 a 1794 hefyd yn dangos Y Domen Fawr yn gymharol glir, fel man agored wedi'i amgylchynu gan adeiladau mewn clystyrau ar hyd ymylon lleiniau tir cyfagos. Dim ond ar hyd ymylon gogleddol a dwyreiniol yr ardal hon y cafwyd gwaith datblygu hyd at y bedwaredd ganrif ar bymtheg, pan greodd y gwaith o adeiladu Heol Plas Uchaf a Maes y Ffynnon echelin newydd ar gyfer adeiladu o'i mewn.

O'r Domen Fawr, mae Heol y Pandy a rhwydwaith o lwybrau i'r gorllewin yn ffurfio llain fawr arall na chafodd ei datblygu rhyw lawer y tu hwnt i'w chyrion dwyreiniol, gan gadw cymeriad amaethyddol. Fe'i rhannwyd gan ffordd newydd y tu cefn i Heol y Pandy yn ddiweddarach yn yr ugeinfed ganrif. Mae mapiau ystad o 1760 a 1794 yn dangos y llain hon yn gymharol glir, gydag adeiladau ar hyd ei ffiniau

Chwith uchod: Mae'n debyg bod y terasau hyn wedi'u hadeiladu fel tai cefn wrth gefn yn wreiddiol, ac mae ganddynt nodweddion maestref ddiwydiannol fach.

Uchod: Mae filâu ar wahân ar dir helaeth yn nodweddiadol o'r Ardal Orllewinol.

dwyreiniol, a dau neu dri thŷ mewn mannau eraill (un o'r rhain yw safle Pen y Bryn, lle gallai'r adeilad allan yn y cefn fod wedi rhagflaenu'r tŷ presennol). Rhwng Bryn Teg a Thylau Mair, mae cornel siamffrog Pen Brynbella yn amlwg yn cadw at lain arall, sef bwthyn cynhenid o'r ail ganrif ar bymtheg neu'r ddeunawfed ganrif mae'n debyg.

I'r dwyrain o Heol Feurig mae cyfres o leiniau llai sy'n ffinio ag afon Aran. Ar un o'r lleiniau hyn roedd tanerdy o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg o leiaf. Ailddatblygwyd y safle gydag ystad fach o dai yng nghanol yr ugeinfed ganrif. Mae Porth Marchnad yn dangos gwaith ad-drefnu ac ehangu llinell gynharach, a gafodd ei rhwystro bron gan adeilad a oedd yn estyn allan i'r de o Stryd Fawr hyd at ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Efallai fod Adeiladau Victoria (1870) a Liverpool House (1830) yn rhan o safle tresmasiad arall ar ardal agored flaenorol, er eu bod yn amlwg yn cadw at linell Wtra Plas Coch.

Yn wahanol i ganol y dref, mae'r datblygiad yma ar raddfa lai yn gyffredinol, yn cynnwys adeiladau sengl neu resi byr iawn, a nodir ffyniant gwahanol lleiniau gwahanol yn glir ym meintiau gwahanol iawn adeiladau cyfagos. Roedd plasdai trefol sylweddol yn ymddangos ymysg datblygiadau tameidiog o resi byr, gan greu llinell barhaus bron o adeiladau ar hyd y Domen Fawr a Heol y Pandy erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Roedd dwysedd y datblygiadau'n amrywio, yn ôl tîrfeidiannaeth mae'n debyg. Un o'r ardaloedd

mwyaf dwys o ran adeiladau oedd Hen Felin (a ddisgrifiwyd gan Dr Parsons yn 1888), a gliriwyd yn y pen draw ac ailddatblygwyd yr ardal. Yn yr un modd roedd Heol y Pandy wedi'i datblygu'n ddwys ar ei hochr orllewinol. Lleolwyd dau gwrth yma, ond un llinell o adeiladau sydd ar ôl erbyn hyn. Pan adeiladwyd Heol Plas Uchaf a Maes y Ffynnon daeth cyfle i gael datblygiad unedig, ond er bod y manylion gwerthu yn awgrymu cynllun unfurf, roedd yr hyn a adeiladwyd yn cynnwys filâu mawr yn ogystal â chyfres o derasau byr.

Nodweddion Adeiladu

Mae cyfres o adeiladau sy'n dyddio o'r ail ganrif ar bymtheg yn dangos graddau'r anheddu yn y cyfnod hwn: credir bod Plas Coch, The Unicorn a Plas Newydd i gyd yn ymgorffori adeiladwaith o'r ail ganrif ar bymtheg, er eu bod ym mhob achos wedi'u hymestyn a'u hailfodelu ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'n bosibl bod yr adeiladau gwreiddiol i gyd yn dai mawr. Credir bod Plas Uchaf hefyd yn blasdy trefol o'r ail ganrif ar bymtheg neu'r ddeunawfed ganrif, ond fe'i hailadeiladwyd yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'i ailosod gyda ffryntiad hardd yn wynebu'r tu mewn dros yr ardd. Plasdy trefol o'r ddeunawfed ganrif yw Plas Gwyn ac mae'n gyflawn i raddau helaeth. Mae'r tai mawr hyn yn wahanol iawn i'r adeiladau cynhenid llai sydd hefyd wedi goroesi yn yr ardal hon (Fro Awel, Cemlyn House, Isfryn House, Bythynnod Glan Arran, a Pen Brynbella). Adlewyrchir y ffyniant cynyddol yn nodweddion yr adeiladau o'r ddeunawfed ganrif, yn cynnwys cyfres o blasdai trefol uchelgeisiol. Mae'n debyg i Glan Arran gael ei adeiladu yn lle bwthyn cynharach, ac mae'n ffinio â dau fwthyn cynhenid, mewn cyfodiad o adeiladau o feintiau gwahanol iawn. Mae Tan y Gader o 1800, Glanafon o 1820, Tŷ Meurig o tua 1830 a Mervinian House hefyd i'w gweld ymysg adeiladau llawer llai.

Mae lleoliad yr adeiladau hyn — mewn lleiniau cymharol fach o dir ac wedi'u cyfod â thai llawer llai — yn awgrymu eu bod yn gysylltiedig iawn ag economi drefol neu ddiwydiannol hyd yn oed. Gall Star House a Springfield Villa fod yn enghreifftiau gwych o hyn: tŷ sy'n dyddio o tua 1800 yw Star House a adeiladwyd i ymgorffori dau lawr o loffydd gwehyddu gyda mynediad allanol annibynnol. Tŷ o ganol i ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg yw Springfield Villa sydd wedi'i gysylltu â Star House drwy'r grisiau a'r bont a oedd yn arwain at y siopau gwŷdd.

Tŷ ystad bach ar gyrion y dref yw Bryn y Gwin.



Mae cyfres o dai o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac yn ddiweddarach yr ymddengys eu bod yn perthyn i'r mudiad pictiwrésg yn cynnwys nodweddion gwahanol iawn. Tai unigol yw rhai o'r rhain sy'n sefyll ar eu tir eu hunain — er enghraifft Tan yr Allt a Fron Arran sy'n dyddio o tua 1830. Mae rhai eraill yn barau neu'n derasau byr — Y Graig a Rhoslyn a'r tai ar Fryn Teg. Mae'n ymddangos bod y rhain wedi'u hadeiladu ar gyfer deiliadaeth unigol, ond mae'n bosibl mai fel tai llety ar gyfer twristiaid y bwriadwyd y teras mwy ar Fryn Teg a'r tri thŷ ym Mryntirion, gyda'u ffenestri mawr a'u ffenestri bae.

Adeiladau domestig yw'r rhan fwyaf o'r rhai sydd wedi goroesi yn yr ardal hon, er bod adeiladau masnachol a diwydiannol ar gyrion y dref. Un o'r prif adeiladau hyn yw Plas Newydd â'i ffryntiad cain sy'n dyddio o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg (tafarn yn cynnwys stablau a thai yn y cefn ydoedd yn 1820), ac mae Adeiladau Victoria a Liverpool House yn enghreifftiau o bensaernïaeth fasnachol a gwelliannau trefol o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg — a luniodd linell resymegol o adeiladau ar ben Heol Feurig. Ger y bont dros afon Aran roedd ffatri tecstilau fach yn 1830, ac mae Star House yn cynrychioli cenhedlaeth gynharach oedd yn cynhyrchu tecstilau, pan gafwyd siopau gwŷdd ar loriau uchaf y tai.

4. Ardal Tanws

Datblygiad Hanesyddol a Thirwedd

Roedd cafn y felin a ddilynodd linell Ffos y Felin yn ddiweddarach yn nodi terfyn dwyreiniol y datblygiad trefol ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif. Dim ond rhannau uchaf (pen deheuol) yr ardal i'r dwyrain ohono a ddatblygwyd ac mae Bwthyn Pont yr Arran yn enghraifft dda o nodweddion cynhenid gwledig adeiladau cynnar yn y dref. Mae'n debyg bod melin yn rhan o glwstwr bach o adeiladau a ddangosir yma ar fap 1794. Roedd tanerdy yma erbyn 1820, a gwelir nodweddion diwydiannol yn yr ardal o hyd. Adeiladwyd y Tŷ Llys i'r gogledd o'r ardal hon yn 1825, ac yn 1850, sefydlwyd gwaith nwy y dref; mae Retort House, Governor House a rhai tai cyfoes wedi goroesi hyd heddiw. Ond cafwyd datblygiad sylweddol yma ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a oedd yn gysylltiedig â'r gwaith o adeiladu Ffos y Felin,



Bythynmod ystad pictiwrésg Pandyr Odyn.



Mae filâu ar wahân yn nodweddiadol o'r ardal ogleddol.



Roedd Frondirion yn ddatblygiad cynlluniedig uchelgeisiol o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg; mae ei safle nodedig wrth yr orsaf reilffordd a'i faint yn awgrymu iddo gael ei adeiladu ar gyfer y diwydiant twristiaeth.

a'r strydoedd newydd (Heol Glyndŵr a Heol Plas yn Dre) i'r dwyrain, gan roi cymeriad unedig cryf i'r ardal fel maestref ddiwydiannol.

Er bod yr ardal wedi'i datblygu fel cymysgedd o rannau preswyl a diwydiannol, roedd gwahaniaeth pendant rhwng y rhannau. Yn union wrth ymyl Pont yr Arran roedd ardal y tanerdy wedi'i gwahanu oddi wrth y strydoedd newydd o dai i'r gogledd gan wal derfyn uchel o garreg (mewn bodolaeth o hyd). Ceir ffin amlwg hefyd o amgylch yr iard bren a gweithdy'r saer. Dim ond y warws/gweithdai ar Heol Glyndŵr a Chae Tanws Bach, a'r hen waith argraffu ar Gae Tanws Bach, oedd yn gymysg â thai, ac i'r de o Heol Glyndŵr; datblygwyd ardal breswyl fach ac anarferol o gydlynol rhwng tua 1886 a 1903.

Nodweddion Adeiladu

Oherwydd bod y rhan fwyaf o'r ardal wedi'i

Datganiad Pwysigrwydd

Mae Dolgellau yn dref unigryw. Mae siâp a strwythur canol y dref yn ein hatgoffa o'i gwreiddiau canoloesol. Tyfodd ar gyfres o leiniau afreolaidd o dir; ac mae adeiladau yn cadw at eu ffiniau ac o fewn iddynt. Mae'r lleiniau wedi'u rhannu gan batrymau ystumiol o lonydd a strydoedd cefn, neu wedi'u gwahanu gan fannau agored yr oedd adeiladau eraill yn tresmasu arnynt yn achlysurol. Yn aml mae'r adeiladau'n dilyn siâp ffiniau'r lleiniau yn union, a fu'n gadarn wrth i'r dref dyfu a chael ei chynllunio. Hyd yn oed y tu allan i ganol y dref, gellir gweld mai'r patrwm lleiniau sylfaenol yw'r prif ddylanwad ar strwythur y datblygiad, o ran llinellau'r adeiladau ar ochr orllewinol afon Aran, a'r filâu gwasgaredig o amgylch y dref i'r gogledd a'r de-orllewin. Er gwaethaf sawl menter cynllunio tref o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, sydd hefyd wedi gadael eu hôl ar y dref, ni chafodd y patrwm sylfaenol erioed ei ddileu.

Mae'r patrwm hwn o fannau agored bob yn ail, lonydd troellog, a lleiniau o dir sydd weithiau bron wedi'u hamgylchynu'n llwyr gan adeiladau yn hollbwysig i gymeriad hanesyddol y dref. Mae amrywiaeth o ran maint, math a dyddiad adeilad hefyd yn ganolog i'w chymeriad hanesyddol, a dylid cynnal a gwella hyn. Ceir amrywiaeth wych o wahanol fathau o adeiladau yn agos at ei gilydd yn Nolgellau. Mae bythynnod cynhenid bach yn sefyll ochr yn ochr â phlasdai trefol boneddigaidd

mawr; a filâu gothig yn edrych allan dros resi o dai teras. Datblygodd yr amrywiaeth hon dros sawl canrif o adeiladu ac ailadeiladu, ac mae'n datgelu strwythur cymdeithasol datblygol y dref yn fanwl iawn. Yn wahanol i sawl tref arall, erys y dystiolaeth o ysgogwyr economaidd Dolgellau o hyd. Mae ei gwreiddiau fel tref farchnad yn amlwg o'r manau agored eang yng nghanol y dref, a gellir olrhain olion y diwydiant gwlan, masnach a thwristiaeth o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn glir o hyd.

Tref a adeiladwyd o garreg yw Dolgellau yn y bôn, ond mae'r amrywiadau yn y modd y cafodd y garreg ei thrin yn adlewyrchu cronoleg hir ac amrywiaeth cymdeithasol eang yr adeiladau. Mae'r gwahaniaethau hyn yn creu cyfoeth helaeth o fanylion, yn amrywio o orffeniadau gwyngalchu a rendro adeiladau cynnar; i waith maen llaw diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Mae'r amrywiaeth hon yn bwysig a dylid ei chynnal a'i dathlu. Mae'r amrywiaeth debyg a welwyd yn y defnydd o lechi to wedi lleihau'n sylweddol, ond dylid ei thrysori. Mae hanes ym mhob manylyn sydd wedi goroesi — o simneiau i ffenestri a cherrig drysau — ac mae'r ffaith bod cymaint o'r manylion hyn wedi goroesi yn adnodd cyfoethog ar gyfer deall hanes y dref. Dyma'r nodweddion sy'n cyfuno i wneud Dolgellau yn anheddiad trefol mor nodedig.

datblygu dros gyfnod byr yn ddiweddarach y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ceir nodweddion cyson ynddi, a ategir gan y defnydd eang o waith maen llanw arwyneb tywyll. Ar hyd y ddwy brif stryd, roedd yr unedau datblygu yn gymharol fach, a cheir amrywiaeth o fathau o dai, yn cynnwys paru o filâu gyda ffenestri bae a therasau byr gyda gerddi ffrynt. Mae Aberwnion, Cae Tanws ac Adeiladau Talyrafon yn ffurfio datblygiad cydlynol iawn. Credir i Aberwnion a Chae Tanws gael eu hadeiladu gefn wrth gefn.

cymharol fawr o ddiwedd y ddeunawfed ganrif i ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, i resi o fythynnod bach. Fel mewn mannau eraill, lleiniau o dir cymharol fach sydd gan y tai mwyaf hyd yn oed, sy'n awgrymu eu bod yn perthyn i economi drefol a diwydiannol o bosibl. Mae Bryn House yn enghraifft arbennig o dda o hyn, yn bennaf oherwydd bod ei adeilad allan yn edrych fel warws neu weithdy tecstilïau. Mae Erw Wen a'r tŷ nesaf ato yn dai gwych o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg gyda manylion Sioraidd da, wedi'u hailfodelu yn ddiweddarach yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg pan ychwanegwyd llawr arall a ffenestri bae — gan eu galluogi i gael eu defnyddio fel tai llety efallai.

5. Yr Ardal Orllewinol

Datblygiad Hanesyddol a Thirwedd

I'r gorllewin o Dylau Mair, mae nodweddion sylfaenol y dirwedd yn newid. Er bod yr ardal rhwng Tylai Mair a Ffordd Bodlondeb yn cynnwys ffiniau cromliniol a llawer o lwybrau troed, nid oes ganddi'r un strwythur cellog amlwg â'r ardal drefol, ac ymddengys ei bod wedi parhau i fod yn dir ffermio, heb ei ddatblygu llawer tan y bedwaredd ganrif ar bymtheg. O 1830, dechreuwyd adeiladu filâu mawr ar y llethrau ar diroedd helaeth. Dechreuodd datblygiadau ar raddfa fach yn yr ugeinfed ganrif erydu'r darlun hwn, ond y filâu a'u lleoliadau coediog yw'r nodweddion amlycaf yn yr ardal.

Mae nodweddion datblygiadau ar hyd Ffordd Cader Idris hefyd yn awgrymu strwythur sylfaenol gwahanol. Y tu hwnt i Dylau Mair, mae'r datblygiad yn dilyn llinell y ffordd yn hytrach na ffiniau'r lleiniau, sy'n rhoi cymeriad llinellol iddo. Dangoswyd datblygiadau tameidiog ar fap 1794, a sefydlwyd Capel Salem yn 1766, ond nodweddion o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg sydd gan yr adeilad yn bennaf. Adeiladau domestig a geir yma'n bennaf, ond ceir dau adeilad â swyddogaeth ddiwydiannol o bosibl — yr hen ysgoldy yng Nghapel Salem a'r adeilad wrth ymyl Bryn House.

Nodweddion Adeiladu

Mae'r filâu cynharaf yn defnyddio cynllun Sioraidd syml, ond erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, arweiniodd blas ar nodweddion pictiwrésg at ffenestri mawr a thalcenni mawr:

Ar Ffordd Cader Idris, mae'r datblygiadau yn gymysg, gan amrywio o dai sengl neu dai pâr

6. Ardal Pont yr Arran

Datblygiad Hanesyddol a Thirwedd

Ffurfiar afon Aran ffin benodol i'r dref hyd at y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Y tu hwnt iddi, roedd datblygiad yn gyfyngedig a nodweddion amaethyddol gyda chaeau mawr, rheolaidd a welwyd yn bennaf. Fodd bynnag, roedd yr afon ei hun yn brif ffynhonnell pŵer dŵr diwydiannol, ac roedd cyfres o felinau ar hyd ei glannau. Melinau pannu oedd y rhain yn bennaf, er bod melin flawd a ffatri wlân yno hefyd erbyn diwedd y ddeunawfed ganrif. Nid oes yr un o'r rhain wedi goroesi, ond ceir olion helaeth o'r melinau pannu yng nghylifiad afon Ceunant ac afon Aran.

Ymhell y tu hwnt i derfynau'r dref, adeiladwyd y wyrchw (Llwyn View erbyn heddiw) yn 1850. Mae'n arwydd o bwysigrwydd gweinyddol Dolgellau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac mae'n un o nifer o adeiladau sefydliadol a oedd yn nodi ei statws yn y cyfnod hwn.

Roedd Pont yr Arran hefyd yn dollborth (cyfeirir at borth a bwthyn tollborth ger yr Ysgol Genedlaethol mewn disgrifiadau o'r dref o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg), a rhoddodd echelin ar gyfer datblygiad llinellol ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, pan ddatblygwyd tir a arferai fod yn rhan o Ystad y Llwyn.

Yn yr ugeinfed ganrif, roedd hen dir amaethyddol ar gyrion y dref yn barod i gael ei ddatblygu, gydag ystadau tai cyngor i ddechrau yn y cyfnodau rhwng ac yn union ar ôl y ddau ryfel (a'r ysbyty yn 1929), ac yn ddiweddarach gyda datblygiad hapfasnachol preifat, mewn proses sy'n parhau.

Nodweddion Adeiladu

Ni chafwyd llawer o ddatblygiad yma cyn yr ugeinfed ganrif. Wrth ymyl y bont, mae'n bosibl bod teras hir o dai bach o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn gysylltiedig â'r ffatri tecstiliau yr oedd yn ei hwynebu ar draws yr afon.


Aran Dale oedd y melindy a oedd yn gysylltiedig â'r felin flawd uchaf ac roedd yn un o dai ystad Nannau mae'n debyg (mae ganddo adain gromfannol sy'n nodweddiadol o dai eraill ar yr ystad). Roedd cyfres o derasau cyfochrog (a rhes arall ar ongl sgwâr i'r ffordd), yn y datblygiad diweddarach ar hen dir ystad y Llwyn, y lluniwyd rhai fel cyfansoddiadau cymesur. Fel Ardal y Tanws ar lan orllewinol afon Aran, mae'r datblygiad hwn yn ffurfio maestref gydlynol gyda nodweddion cryf.

I ffwrdd o'r brif ffordd, adeiladau o'r ugeinfed ganrif sydd amlycaf yn yr ardal — parau nodweddiadol o dai cyhoeddus o'r cyfnod rhwng y ddau ryfel, terasau hirach o'r 1950au a'r 60au, a thai ar wahân a thai pâr datblygiad hapfasnachol mwy diweddar.

7. Y Cyrion Allanol Gorllewinol


I'r gorllewin o Ffordd Bodlondeb, mae toriad cryf yn y dirwedd hanesyddol sylfaenol, gyda system o gaeau unionlin ar y llethrau uchaf. Mae dylanwad y dref yn amlwg o hyd, yn hanesyddol mewn cyfres o filâu a chartrefi boneddigion ac mewn datblygiadau o'r ugeinfed ganrif. Mae'n amlwg bod y rhai sydd bellaf o'r dref yn debycach i ystadau gwledig bach — Bryn y Gwin, er enghraifft, gyda'i fythynnod ystad ei hun wrth y gatiau, ac mae'n debyg mai'r ystad hon oedd hefyd yn gyfrifol am fythynnod pictiwresg Pandy yr Odyn.

I Ardal yr Astudiaeth yn Dangos Ffiniau'r Ardal Gadwraeth a Dosbarthiad Adeiladau Rhestredig




Atgynhychir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhychu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif Trwydded 100021874.

2 Unedau Datblygu: Strwythur Lleiniau Awgrymedig a Thresmasiadau




Atgynhychir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhychu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall gyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif Trwydded 100021874.


3 Dolgellau yn 1760: Map of Several Estates in the County of Merioneth Belonging to Griffith ap Howell Vaughan Esq. (Drwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru)



4 Dolgellau yn 1794: Map o Ystad y Nannau (Archifau Gwynedd, ZM/3667)



5 Dolgellau yn 1820: Arolwg a Map o Ystad y Llwyn (Archifau Gwynedd, ZM/86)





6 Dolgellau a'r Cyffiniau yn 1842: Map y Degwm (Drwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru)



7 Dolgellau yn 1881: Argraffiad Cyntaf yr Arolwg Ordnans (1:2,500)


© a hawl cronfa ddata 'Hawlfraint y Goron a Landmark Information Group Ltd' (Cedwir pob hawl 2009).




8 Pob Ardal â Nodweddion

Atgynhychir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhychu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif Trwydded 100021874.

9 Y Canol (I)




10 Ardal y Lawnt (2)



Atgynhychir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhychu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif Trwydded 100021874.

II Yr Ardal Ddeheuol (3)




12 Ardal Tanws (4)




Atgynhychir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhychu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall hyn arwain at erlyniad neu achos sifil. RhifTrwydded 100021874.

13 Yr Ardal Orllewinol (5)



14 Ardal Pont yr Arran (6)



Atgynhychir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhychu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall gyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif Trwydded 100021874.

16 I'r Gogledd o Ardal Wnion (8)

Atgynhychir y map hwn o Ddeunydd yr Arolwg Ordnans gyda chaniatâd Arolwg Ordnans ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi © Hawlfraint y Goron. Mae atgynhychu heb ganiatâd yn torri hawlfraint y Goron a gall gyn arwain at erlyniad neu achos sifil. Rhif Trwydded 100021874.



Cadw yw gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn gweithio i sicrhau amgylchedd hanesyddol hygyrch a ddiogelir yn dda i Gymru.

Cadw
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd CF15 7QQ